Creu cymunedau i fod yn falch ohonynt
Creating communities to be proud of

# SWYDD-DDISGRIFIAD

## 1. MANYLION Y SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Swyddog Effaith Cymunedol – Contract Cyfnod Penodol 18 mis |
| **Yn atebol i'r** | Cyfarwyddwr Partneriaethau – Gwerth Cymdeithasol |
| **Yn adrodd yn uniongyrchol** | Dim |
| **Tîm** | Cymdogaethau |
| **Lleoliad** | Mochdre ond yn symud i Abergele |
| **Manylion cyflog** | Graddfa 7 SCP X-Y (£28,365 – £30,240) |

## 2. DIBEN Y SWYDD 'Yr Her'

Cartrefi Conwy yw'r landlord cymdeithasol mwyaf yn sir Conwy gyda dros 4000 o gartrefi ledled Gogledd Cymru. Mae ein diben cymdeithasol yn glir: creu cymunedau i fod yn falch ohonynt drwy roi ein cwsmeriaid yn gyntaf a darparu gwerth i bawb. Rydym yn sefydliad uchelgeisiol yn chwilio am rywun sy'n greadigol ac arloesol, ac sy'n gallu defnyddio ystod o blatfformau, sianelau a thechnegau i ymgysylltu â'n budd-ddeiliaid allweddol.

Un o brif feysydd Cynllun Corfforaethol Cartrefi Conwy yw "Gwneud y Mwyaf o'n Heffaith Gymdeithasol". Bydd y rôl newydd hon yn hanfodol i fodloni'r maes perfformiad allweddol hwn, gan sicrhau bod ein heffaith gymdeithasol yn canolbwyntio ar feysydd y mae gennym ddylanwad ystyrlon a dod â phwyslais ar ganlyniad i'n gwaith.

Yn y rôl hon byddwch yn:

1. rhoi mewnbwn i ddarpariaeth Strategaeth Effaith Gymdeithasol newydd a chymryd cyfrifoldeb dros fesur ac adrodd ar ein Gwerth Cymdeithasol.

2. rhoi adnodd mesur Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) ar waith a mesur ac adrodd ar ystod eang o brosiectau a gwasanaethau ar draws y Grŵp gan sicrhau eu bod yn bodloni ac yn darparu yn erbyn ein Strategaeth Effaith Gymdeithasol.

3. gwneud y mwyaf o'r gwerth cymdeithasol o'n cadwyn gyflenwi ar draws ein cymunedau a mesur a monitro darpariaeth a'r effaith mae hyn wedi'i gael.

## 3. CYFRIFOLDEBAU 'Yr hyn fyddwch chi'n ei wneud'

Cefnogi'r sefydliad i ddarparu ei Strategaeth Effaith Gymdeithasol gyda'i phedair thema allweddol:

Bydd gofyn i chi:

- Ddynodi adnodd mesur gwerth cymdeithasol addas fydd yn ein galluogi i fesur yr SROI ar draws ystod eang o brosiectau a gwasanaethau
- Bod yn gyfrifol am gynnal SROI ar brosiectau amrywiol a chynhyrchu adroddiad terfynol Yn cynnwys creu data gwaelodlin ar ddechrau prosiect, monitro'r pellter a deithiwyd a mesur y gwahaniaethau y mae'r prosiect wedi'i wneud – o ran newidiadau i bobl a'r gwerth ychwanegol (SROI) y mae'r prosiect wedi'i gynhyrchu
- Casglu'r holl werth cymdeithasol a grëwyd ar draws y Grŵp a dod â'r cyfan at ei gilydd mewn adroddiad blynyddol
- Gweithio gyda sefydliadau cadwyn gyflenwi i wneud y mwyaf o'r gwerth cymdeithasol y byddant yn eu creu i'n cymunedau a phrosiectau
- Monitro darpariaeth yr effaith hwn i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni
- Goruchwylio effaith gymdeithasol y grantiau, rhoddion a nawdd a ddyfernir i grwpiau cymunedol ac elusennau a gweithio gyda'r grwpiau amrywiol i wneud y mwyaf o'r gefnogaeth a ddarparwn iddynt
- Dadansoddi data ac adrodd ar effaith gymdeithasol
- Darparu argymhellion pan fo angen i dimau eraill ar sut i wella gwerth cymdeithasol mewn prosiectau a gwasanaethau
- Darparu adroddiadau rheolaidd i Dîm Arweinyddiaeth Cartrefi Conwy
- Cyflawni yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd

## 4. CYD-DESTUN GWAITH (yr amgylchedd, y math o gyfarpar)

Gweithio gyda rhywfaint o hyblygrwydd i sicrhau bod anghenion Gwerth Cymdeithasol y busnes yn cael eu bodloni. Gallai hyn olygu gweithio y tu allan i oriau gwaith arferol ac ar benwythnosau pan fo angen a theithio i gyfarfodydd fel bo angen.

## 5. CYTUNDEB

**Llofnod Deiliad y Swydd:** ...................................................... **Dyddiad:** ......................

**Llofnod y Rheolwr Atebol:** ...................................................... **Dyddiad** ......................

# Manylion am yr Unigolyn – Beth allwch chi ei gynnig i ni?

Swyddog Effaith Cymunedol

| CYMWYSTERAU ACADEMAIDD / PROFFESIYNOL | Hanfodol / Dymunol | Dull asesu |
|---|---|---|
| Profiad o weithio ym maes tai/datblygu cymunedol neu swydd gysylltiedig. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Tystysgrif |
| GWYBODAETH A PHROFIAD | | |
| Profiad blaenorol a chymryd rhan mewn darparu prosiectau a digwyddiadau cymunedol llwyddiannus | Dymunol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Profiad o gasglu ac adrodd ar ddata | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Profiad blaenorol a gwybodaeth am ddulliau gwerthuso i gael eu defnyddio i fesur effaith gweithgareddau cymunedol | Dymunol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| SGILIAU | | |
| Sgiliau rhyngbersonol, sgiliau dylanwadu a thrafod datblygedig | Hanfodol | Cyfweliad |
| Sgiliau hwyluso, ysgogi a grymuso | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Sgiliau hyfforddi a’r gallu i arddangos datblygiad pobl | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Sgiliau Trefnu / Rheoli Prosiectau | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Y gallu i weithio gydag eraill ac ar eich liwt eich hun | Hanfodol | Ffurflen gais / Cyfweliad |
| Gallu gyrru* | Hanfodol | Ffurflen Gais / Tystysgrif |
| Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig. | Hanfodol | Ffurflen Gais / Prawf Gallu |
| Sgiliau Cymraeg | Dymunol Iawn | Ffurflen Gais / Cyfweliad |
| Sgiliau Cyflwyno | Hanfodol | Cyflwyniad |

| GWERTHOEDD CRAIDD CARTREFI CONWY | | |
|---|---|---|
| Bod yn arloesol | Hanfodol | Cyfweliad |
| Wedi ymrwymo i ansawdd | Hanfodol | Cyfweliad |
| Gwneud y peth iawn | Hanfodol | Cyfweliad |

**Mae Cartrefi Conwy yn ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau.**

*** Lle bo anabledd yn atal hyn, bydd yn cael ei adolygu gyda'r ymgeisydd yn ystod y cyfweliad i weld a oes unrhyw addasiad rhesymol y gellir ei wneud ar gyfer y gofyniad hwn.**